



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

FFURFLEN A – CAIS A CHANLLAWIAU
CAIS I YMUNO Â CHYNLLUN WIBSS - HEPATITIS C
CAM 1 CRONIG

**CANLLAWIAU AR GYFER
YMGEISWYR**

Mae'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad ydynt erioed wedi ymuno â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, neu gydag unrhyw un o gynlluniau'r DU neu Gynlluniau Etifeddiaeth (e.e. Cronfa Skipton) mewn perthynas â thaliadau Hepatitis C, ac a gafodd:

- Eu heintio gyda Hepatitis C yn sgil triniaeth y gwnaethon nhw eu hunain eu derbyn gyda gwaed, cynnyrch gwaed neu feinwe'r GIG o leoliad meddygol yng Nghymru

Neu

- Eu heintio gyda Hepatitis C ar ôl i'r firws gael ei drosglwyddo iddynt o rywun arall, a oedd eu hunain wedi cael eu heintio gyda Hepatitis C yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynnyrch gwaed neu feinwe'r GIG o leoliad meddygol yng Nghymru.

Os yw eich amgylchiadau yn wahanol i'r uchod, cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad. I wneud cais i WIBSS, mae angen i chi fod wedi'ch heintio yng Nghymru. Fel arall, i gysylltu â'r cynlluniau eraill, gweler y manylion isod:

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr: 0300 330 1294

E-bost: nhsbsa.eibss@nhs.net

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban 0131 2756754

E-bost: nss.sibss@nhs.net

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon: 028 9536 3817

E-bost: bsa.ibss@hscni.net

Mae'r ffurflen hon yn caniatáu i chi wneud cais am daliadau Hepatitis C Cam 1 Cronig gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

Mae'r holl ffurflenni eraill ar ein gwefan: www.WIBSS.nhs.uk

SUT I WNEUD CAIS

Dylech gwblhau pob rhan yn Adran 1 y ffurflen hon. Dylech roi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau'r adrannau sy'n weddill. Wedyn, mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd sy'n eich trin. Mae'n debyg mai'r clinigydd sy'n eich trin am Hepatitis C fydd hwn, ond yn achos ymgeiswyr sydd ag anhwylderau gwaedu (fel haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os nad oes gennych glinigydd y gallwch chi'r rhoi'r ffurflen hon iddo, dylech chi ofyn i'ch Meddyg Teulu ei chwblhau.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhowch gopïau i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru. Cyhyd ag y bydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau eich hawl i dderbyn taliad, byddwch yn cael llythyr gan y cynllun i gadarnhau hyn, a bydd yn gofyn ichi ddarparu'ch manylion banc ac unrhyw brawf o'ch hunaniaeth sydd ei angen.

Noder; os derbynnir eich cais, bydd unrhyw daliad sy'n ddyledus yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y derbyniwyd eich cais gan WIBSS.

Dylech chi anfon ffurflenni wedi'u cwblhau i:


**Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2TL**

HELP GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ar 02921 500900.

ADRAN 1(A) DIOGELU DATA A DATGANIAD YR YMGEISYDD

Ticiwch y blwch i gadarnhau:



Rwy'n deall y gall y data rwy'n eu darparu gael eu rhannu â darparwyr gwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaethau Gwrth-dwyll, er mwyn sicrhau y caiff taliadau eu gwneud yn gywir ac yn brydlon, ac at ddibenion atal a datgelu troseddau ac ymchwilio iddynt.

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwy'n cytuno bod yr wybodaeth a roddaf ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir.

Rwy'n cytuno i ad-dalu unrhyw arian rwyf wedi ei dderbyn os canfyddir nad oedd gennyf hawl iddo.

Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn am roi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol

Nid wyf wedi derbyn taliad o unrhyw gynllun arall yn y DU o ganlyniad i fy haint Hepatitis C.

Rwy'n cytuno i GIG Cymru gael unrhyw ddata a gedwir amdanaf gan Gronfa Skipton neu Sefydliad Caxton, a hynny at ddibenion darparu cymorth ariannol imi.

Rwy'n deall y gallai GIG Cymru fod angen gweld data a gedwir am yr ymgeisydd gan gyrff cyhoeddus eraill a/neu wneud ymholiadau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill fel y bo'n angenrheidiol, er mwyn dod i benderfyniad ynghylch y cais hwn.

Llofnod yr Ymgeisydd _____

Dyddiad _____

Enw (Llythrennau Bras) _____

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr wybodaeth y byddwch chi'n ei darparu ar y ffurflen hon ond yn cael ei defnyddio gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre at ddibenion gwirio'ch hawl i daliad a gweinyddu'ch cais. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon i weithiwr meddygol proffesiynol, rydych chi'n cydsynio i'ch manylion meddygol, y gofynnir amdanynt yn Adrannau 2-5, gael eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre at ddibenion gweinyddu'ch cais.

Os bydd anghydfod yn ymwneud â'ch hawl i daliad, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei datgelu i'r Panel Apeliadau. Os caiff ei farnu nad yw eich cais yn gymwys, mae'n bosibl y bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cadw'ch ffurflen gais ar ffeil, fel bod gennym ni gofnod hanesyddol llawn rhag ofn y byddwch chi'n cyflwyno apêl neu'n gwneud cais am daliad eto yn ddiweddarach. P'un bynnag, caiff gwybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi ei chadw at y dibenion y cafodd ei chasglu, a chaiff ei chadw am o leiaf chwe blynedd.

Caiff eich gwybodaeth ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac mewn modd diogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, ac ni chaiff ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall. Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn rheolydd data o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi. Rydym wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am ein gweithgarwch prosesu data, a Z5021900 yw ein rhif cofrestru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddefnyddio eich gwybodaeth, neu unrhyw bryderon am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu, neu os ydych chi'n dymuno cael copi o'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, cysylltwch â ni trwy ysgrifennu i Ganolfan Ganser Felindre, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2TL.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, darllenwch y Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan.



PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 1(B) MANYLION YR YMGEISYDD

Teitl

Enw Cyntaf

Enw (au) canol

Cyfenw

Enw (au)

Dyddiad Geni

blaenorol

Cyfeiriad
(rhaid i hyn
fod eich prif
breswylfa)

Cod post

Rhif Ffôn Cartref

Rhif Ffôn Symudol

Cyfeiriad E-bost

Rhif y GIG

Rhif Yswiriant Cenedlaethol

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Beth yw eich Statws Priodasol? Ticiwch un dewis isod

Mewn partneriaeth
sifil

Partneriaeth

Yn byw gyda phartner

Yn weddw

Wedi ysgaru

Wedi gwahanu

Sengl

Ydych chi erioed wedi gwneud cais i unrhyw un o gynlluniau Etifeddiaeth y DU (e.e. Cronfa Skipton) i dderbyn taliadau mewn perthynas â'ch haint Hepatitis C?

Os ydych chi, eglurwch isod:



ADRAN 1(C) MANYLION CAIS YCHWANEGOL

Ydych chi'n credu y cawsoch chi eich heintio gan Hepatitis C yn dilyn triniaeth a dderbynioch chi gyda chynhyrchion gwaed, gwaed neu feinwe'r GIG?

Ydw Nac ydw

Os 'Ydw', rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch ar sut a phryd y credwch y digwyddodd yr haint hwn:

Ydych chi'n credu bod hyn wedi digwydd mewn sefydliad meddygol yng Nghymru?

Ydw Nac ydw

Os Ydw, parhewch, os Nac ydw, efallai y bydd angen i chi wneud cais i un o gynlluniau eraill y DU a grybwyllir yn y nodiadau canllaw uchod.

Neu, ydych chi'n credu y cawsoch eich heintio â Hepatitis C ar ôl i rywun arall drosglwyddo'r firws ichi, a bod y person hwn wedi ei heintio yn sgil triniaeth gyda chynhyrchion gwaed, meinwe neu waed y GIG?

Ydw Nac ydw

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os 'Nac ydw', mae'r adran hon wedi ei chwblhau. Os 'Ydw', rhowch ragor o fanylion isod. Sut ydych chi'n credu y digwyddodd yr haint?

Gan bwy yn eich barn chi, y cawsoch chi eich heintio?

Teitl

Enw Cyntaf

Enw(au) Canol

Cyfenw

Enwau Blaenorol

Dyddiad Geni

Cyfeiriad
(mae'n
rhaid iddo
fod y brif
breswylfa)

Cod post

Beth yw eich perthynas â'r person hwn?



PREIFAT A CHYFRINACHOL

Ydyn nhw erioed wedi cofrestru gyda Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru neu unrhyw un o'r Cynlluniau Etifeddiaeth? (E.e Skipton). Os Ydynt, rhowch gyngor ar ba gynllun(iau) os ydych chi'n gwybod hynny:



ADRAN 1(D) GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech chi ei rhoi, ychwanegwch hi yma:

Ar ôl ichi gwblhau pob rhan o Adran 1, anfonwch y ffurflen yma i weithiwr meddygol proffesiynol i gwblhau gweddill y ffurflen. Os oes gennych unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich cais, anfonwch hwn ymlaen at y gweithiwr meddygol proffesiynol hefyd. Yna, bydd y gweithiwr meddygol proffesiynol yn anfon popeth ymlaen i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ar eich rhan.

**MAE'N RHAID I WEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL GWBLHAU
YR ADRANNAU CANLYNOL**

NODIADAU CANLLAW I WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Diolch am roi o'ch amser i helpu gyda'r cais hwn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y ffurflen hon yn ymwneud â chlaf sy'n hysbys i chi ac a oedd wedi'i heintio â Hepatitis C.

Dylid llenwi adrannau 2-5 o'r ffurflen hon ym mhob achos. Pwrpas yr adrannau hyn yw:

- Cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi'i heintio â Hepatitis C Cronig o sefydliad meddygol yng Nghymru

A

- Cadarnhau ei bod yn debygol bod yr haint wedi'i ddal yn sgil triniaeth gyda meinwe, cynnyrch gwaed neu waed y GIG. Mae'n rhaid bod y driniaeth wedi cael ei derbyn yng Nghymru i ymuno â WIBSS.

Os gallwch ddarparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau uchod, yna atodwch gopiâu i'r ffurflen hon.

Os oes cwestiynau ar y ffurflen hon yn ymwneud â'r ymgeisydd na allwch ei ateb, cysylltwch â gweithwyr meddygol proffesiynol eraill sydd wedi trin yr ymgeisydd, ac a fyddai'n gallu darparu'r wybodaeth. Mewn rhai achosion, bydd y ffurflen hon yn ymwneud â chlaf a oedd wedi'i heintio gan rywun sydd (neu a oedd) wedi'i heintio ei hun drwy driniaeth y GIG.

Ar ôl iddi gael ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen hon ynghyd â phob dogfen berthnasol yn uniongyrchol i'r cyfeiriad canlynol:

**Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys
Newydd
Caerdydd
CF14 2TL**

Ffoniwch ni ar **02921 500900** os oes angen unrhyw beth arnoch chi.

PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 2(A) DATGANIAD Y GWEITHIWR MEDDYGOL

Ticiwch i gadarnhau:

Rwy'n deall y gall y data rwyf yn eu darparu gael eu rhannu â Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG, er mwyn sicrhau y caiff taliadau eu gwneud yn gywir ac at ddibenion atal a datgelu troseddau ac ymchwilio iddynt.

DATGANIAD GAN Y GWEITHIWR MEDDYGOL PROFFESIYNOL

Rwy'n cytuno bod yr wybodaeth rwyf wedi ei rhoi yn Adrannau 2-5 o'r ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir. Rwy'n deall y gallaf fod yn destun camau disgyblu a chael fy erlyn os byddaf yn rhoi neu'n cymeradwyo gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol.

Llofnod y Gweithiwr Meddygol Proffesiynol

Dyddiad _____

Enw (llythrennau bras) _

PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 2(B) DATGANIAD Y GWEITHWYR MEDDYGOL PROFFESIYNOL

Rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol
yr Ymarferydd Meddygol
Cofrestredig

Yn rhinwedd pa swydd
ydych chi wedi cwblhau'r
ffurflen hon? (E.e.
Ymgynghorydd, Meddyg
Teulu, ac ati.)

Pa mor hir oeddech chi'n adnabod y person rydych chi'n cwblhau'r ffurflen ar ei gyfer/ar ei chyfer?

Blynedd/Mlynedd

Mis

Eich Manylion:

Teitl

Enw Cyntaf

Enw(au) Canol

Cyfenw

Cyfeiriad
Ysbyty/Meddygfa

Cod post

Rhif Ffôn Symudol

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Cyfeiriad E-bost

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os oeddech chi wedi trafod ag unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol eraill i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen hon, rhowch eu manylion yma:



ADRAN 3 (A) CADARNHAU HAWL YR YMGEISYDD I DALIAD

Oes unrhyw gofnodion sy'n awgrymu bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais i gynllun arall yn y DU (e.e. Cronfa Skipton) i dderbyn taliadau mewn perthynas â'i haint Hepatitis C?

Oes Nac oes

Os 'Oes', rhowch fanylion isod.

Ydy'r ymgeisydd erioed wedi cael prawf gwrthgyrff positif am HCV?

Do Naddo

Os 'Do', beth oedd dyddiad y diagnosis cyntaf?

Ydy'r ymgeisydd wedi profi'n bositif ar gyfer PCR/RNA ar hyn o bryd?

Do Naddo

Os ydy'r ymgeisydd wedi cael prawf negatif ar gyfer PCR/RNA ar hyn o bryd, ydy hyn o ganlyniad i driniaeth ar gyfer Hepatitis C a dderbyniwyd yn y gorffennol neu driniaeth barhaus ar gyfer Hepatitis C?

Ydy Nac ydy

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os yw'r ymgeisydd wedi cael prawf negatif ar gyfer PCR/RNA, oes tystiolaeth radiolegol neu batholegol y cafodd ei heintio'n gronig ar ôl i gyfnod aciwt (h.y. chwe mis cyntaf) y salwch fynd heibio? (Byddai tystiolaeth radiolegol a phatholegol berthnasol yn cynnwys canlyniadau o brofion swyddogaeth yr iau o'r cyfnod cronig sy'n uwch, ystyriaeth flaenorol am driniaeth, histoleg iau neu radiotherapi, symptomau eraill o hepatitis cronig).

Oes Nac oes

DARPARWCH GOPI O GOFNODION MEDDYGOL SY'N CADARNHAU POB UN O'R ATEBION YN ADRAN 3(A)



PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 3(B) CADARNHAU A DDALIWYD YR HAINT YN ANUNIONGYRCHOL

Yn eich barn chi, ydy hi'n debygol y cafodd yr ymgeisydd ei heintio ar ôl i rywun arall drosglwyddo'r firws iddo, ac roedd y person hwnnw wedi ei heintio yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynnyrch gwaed a meinwe'r GIG?

Ydy Nac ydy

Os 'Ydy', a gafodd ei drosglwyddo:

Trwy gyfathrach rywiol?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
Trwy ddod i gysylltiad â	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
nodwydd ar ddamwain?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>

O'r fam i'w babi?

Trwy ddull arall? Nodwch sut

RHOWCH FANYLION A DARPARWCH GOPI O GANLYNIADAU'R PROFION I GADARNHAU PA ENOTEIP MAE'R YMGEISYDD WEDI CAEL EI HEINTIO AG EF NEU PA ENOTEIP OEDD YR YMGEISYDD WEDI CAEL EI HEINTIO AG EF. Os mai 'Do' yw unrhyw rai o'r atebion yn Adran 3(b), ewch i Adran 5(B). Os Naddo, parhewch isod.

PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 4 DIM OND YN ACHOS POBL HEINTIEDIG SYDD Â HAEMOFFILIA NEU ANHWYLDERAU GWAEDU ERAILL A ETIFEDDWYD NEU A GAFFAELWYD Y DYLLID CWBLHAU'R ADRAN HON

Oedd gan yr ymgeisydd, neu a oedd yn gludydd, anhwylder gwaedu sydd wedi ei etifeddu neu ei gaffael? (e.e. Haemoffilia neu Glefyd Von Willebrand)

Oedd Nac oedd

A gafodd unrhyw rai o'r triniaethau canlynol eu defnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

Gwaed cyflawn neu rannau ohono
(gan gynnwys platennau, celloedd
coch, niwtroffilau ayyb.)

Do Naddo

Do Naddo

Cryoprecipitate

Do Naddo

Plasma/Plasma Ffres

wedi'i Rewi

A gafodd unrhyw un o'r rhain eu defnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

Crynodiad Ffactor Factor

Do Naddo

VIII Crynodiad Ffactor IX

Do Naddo

FEIBA

Do Naddo

DEFIX

Do Naddo

Fibrinogen

Do Naddo

Crynodiad factor ceulad
arall

Do Naddo

Os do, pa grynodiad?

PREIFAT A CHYFRINACHOL



PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os yw unrhyw un o'r triniaethau uchod yn cynnwys mwy nag un dos, nodwch hynny isod a nodwch faint o bob cynnyrch a ddefnyddiwyd os ydych yn gwybod hynny.

Ym mha un o ysbytai'r GIG cyn mis Medi 1991 wnaeth yr ymgeisydd dderbyn y cynnyrch a restrir?

Os na ddefnyddiwyd yr un o'r cynnyrch a restrir uchod i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991, ydych chi'n credu ei bod yn debygol y cafodd yr haint Hepatitis C ei achosi gan driniaeth gyda gwaed neu gynnyrch gwaed y GIG cyn mis Medi 1991?

Do Naddo

Os 'Do', rhowch fanylion

DARPARWCH GOPI O'R COFNODION MEDDYGOL SY'N CADARNHAU'R ATEBION A RODDWDYD YN ADRAN 4

Os yw Adran 4 wedi ei chwblhau ac mae'n debygol mai trallwysiad gwaed a achosodd haint yr ymgeisydd yn hytrach na chynhyrchion gwaed, cwblhewch Adran 5(A).

Fel arall, os yw Adran 4 wedi ei chwblhau, ewch yn syth i Adran 5(B)



PREIFAT A CHYFRINACHOL

ADRAN 5(A) CADARNHAU EI BOD YN DEBYGOL BOD HAINT WEDI'I DDAL TRWY DRINIAETH GAN Y GIG YNG NGHYMRU

Ar ba ddyddiad y credir i'r haint (e.e. trwy drallwysiad gwaed) gael ei ddal?

Ym mha un o ysbytai'r GIG neu ym mha gyfleuster arall y credir i'r haint gael ei ddal? (Os cafodd yr ymgeisydd fwy nag un trallwysiad gwaed neu drawsblaniad meinwe, rhestrwch bob ysbyty neu gyfleuster lle y cawsant eu cynnal)

Nodwch yr amgylchiadau y credir i'r haint gael ei ddal ynddynt (e.e. yn ystod triniaethau llawfeddygol, triniaeth yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, ayyb).

Oes unrhyw gofnodion o'r adeg y daliwyd yr haint neu o unrhyw symptomau o haint?

Oes

Nac oes

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os 'Oes', nodwch hynny, ac amgawch gopi o'r cofnodion perthnasol.

A gafodd unrhyw un o'r rhain eu defnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

Albwmin

Yes

No

Imiwnnoglobwlin Mewnwythiennol

Yes

No

Plasma/Plasma Ffres Wedi'I Rewi

Yes

No

Mêr Esgyrn

Yes

No

Gwaed cyflawn neu rannau ohono
(gan gynnwys platennau celloedd
Coch, Niwtroffilau ayyb.)

Yes

No

Os do, at ba ddiben, ac a roddwyd mwy nag un dos? (nodwch faint ar gyfer bob cynnyrch)

Oes unrhyw dystiolaeth o achosion eraill posibl o haint? (e.e. triniaeth gyda chynnyrch gwaed eraill neu feinwe, ayyb.)



PREIFAT A CHYFRINACHOL

Os nad oes modd profi dyddiad yr haint, ydych chi'n credu ei bod yn debygol bod yr haint wedi'i ddal cyn mis Medi 1991?

Ydy

Nac ydy

Os 'Ydy', esboniwch pam:



ADRAN 5(B) ACHOSION POSIBL ERAILL O HAINT

Yn ôl y dystiolaeth neu'ch profiad chi, ydy'r ymgeisydd erioed wedi ei drin/ei thrin am, neu wedi ymwneud â chwistrellu cyffuriau? (Gall hyn gynnwys byw gyda, neu fod mewn perthynas rywiol gyda pherson oedd yn chwistrellu cyffuriau)

Do Naddo

Os 'Do', rhowch ragor o fanylion:

Ydy'r ymgeisydd erioed wedi derbyn triniaeth y tu allan i'r DU?

Do Naddo

Os 'Do', nodwch pa driniaeth, ble a phryd?

Oes unrhyw dystiolaeth arall a allai effeithio ar hawl yr ymgeisydd i daliad?

Oes Nac oes

Os 'Oes', rhowch fanylion:

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Yn eich barn chi, a yw'n debygol bod haint HCV yr ymgeisydd wedi'i gaffael o ganlyniad i driniaeth y GIG a dderbyniwyd cyn mis Medi 1991?

Ydy

Nac ydy

Os 'Nac ydy', nodwch eich rhesymau:

Diolch ichi am gwblhau'r ffurflen hon. Mae'n rhaid anfon y ffurflen a phob dogfen ategol yn uniongyrchol i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru:

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 2TL

